

2025 Rhif (Cy.)

2025 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ
Mawr), Ynys Môn) (Gwahardd
Cerbydau a Beicwyr Dros Dro)
2025

The A55 Trunk Road (Junction 2
(Tŷ Mawr Interchange), Anglesey)
(Temporary Prohibition of Vehicles
& Cyclists) Order 2025

Gwnaed 4 Mehefin 2025

Made 4 June 2025

Yn dod i rym 9 Mehefin 2025

Coming into force 9 June 2025

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 2 (Cyfnewidfa Tŷ Mawr), Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mehefin 2025.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 2 (Tŷ Mawr Interchange), Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2025 and this Order comes into force on 9 June 2025.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cyfnod y gwaith” (“works period”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r

“the trunk road” (“y gefnffordd”) means the A55 London to Holyhead trunk road;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

gloch ar 9 Mehefin 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;
ystyr “y gefnffordd” (“the trunk road”) yw cefnffordd yr A55 Llundain i Gaergybi.

Gwaharddiadau

- 3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.
- 4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

- 5. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

- 6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mehefin 2025

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

- Y darn o brif gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyffordd 2 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.
- Y darn o brif gerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyffordd 2 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 9 June 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions

- 3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.
- 4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

- 5. The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

- 6. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 4 June 2025

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE

- The length of the main eastbound carriageway of the trunk road at Junction 2 that extends from the nosing of the eastbound exit slip road to the nosing of the eastbound entry slip road.
- The length of the main westbound carriageway of the trunk road at Junction 2 that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road.